

# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli Harbour Consultative Committee*

*13 Hydref / October 2009*

## *Adroddiad yr Uned Forwrol - Maritime Unit Report*

### *1 - Morwriaeth / Navigation*

**1.1** Fe archwiliwyd holl Gymhorthion Mordwyo harbwr Pwllheli gan swyddog o Dŷ'r Drindod ar y 10fed Awst 2009. Oni bai bod llusern un cymhorthydd wedi diffodd, adroddwyd gan yr archwiliwr bod mwyafrif o'r cymhorthion mewn cyflwr derbyniol ac mae hyn yn galonogol iawn.

Yn anffodus, mae cymhorthydd marc arbennig pibell arllwys carthffos Hafan y Môr a chymhorthydd arbennig Dwr Cymru sydd wedi ei leoli gyferbyn a thraeth Marian y De yn parhau angen eu cynnal a chadw.

**1.2** Fe fydd yn anorfod bod staff yr harbwr yn paratoi a gweithredu ar raglen cynnal a chadw yn yr harbwr ar gyfer misoedd Hydref hyd at Ragfyr a fu yn cynnwys rhaglen gynhwysfawr ar gyfer cynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo. Mae angen ail beintio'r holl gymhorthion a fu wedi eu lleoli ar y fraich hyfforddi, ac er bod hyn wedi cael ei raglennu ar gyfer gaeaf 2008 a dechrau 2009, ni chwblhawyd y gwaith. Fe fydd angen sicrhau unwaith yn rhagor bod y byrddau dyfnder dwr, ac y prif lithrfeydd yn cael ei gynnwys oddi fewn y rhaglen waith er bod yn ddisgwyliedig bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ac nid yn cael ei gyfyngu i fisoedd y gaeaf.

**1.3** Yn dilyn ymgyrch carthu llwyddiannus yn yr ardal ger mynediad i'r harbwr a gwblhawyd yn ystod mis Mehefin, fe wnaethpwyd archwiliad hydrograffeg o'r ardal gyfagos, a'r sianel fordwyo hyd at lithrfa'r harbwr. Yn dilyn yr ymgyrch, mae yn ymddangos y bod yna ddyfnder dwr digonol yn y rhan hon o'r sianel ar rhai adegau penodol o'r llanw. Mae'r cyfyngiad yn y sianel gyferbyn a swyddfa'r harbwr yn parhau, ac mae yna rhai cychod wedi taro'r gwaelod wrth geisio mordwyo heibio'r cyfyngiad ar adeg llanw isel. Diau fydd y gwaith carthu yn cychwyn yn fuan yn 2010.

<b>Lleoliad - Location</b>	<b>Rhif / No</b>	<b>Cymhorthydd Mordwyo Aid To Navigation</b>	<b>Math Type</b>	<b>Nam Defect</b>
Llanbedrog	N02859	Llanbedrog Sewer Outfall	Tw'r di olau Unlighted Beacon	Angen Peintio Requires Painting
P0326	N02861	Sewer Outfall Harbour No.4	Tw'r Golau Lighted Beacon	Angen Peintio Requires Painting
Pwllheli	N13358	Starcoast Outfall	Bwi Golau Lighted Buoy	Dim Golau Light Extinguished
Pwllheli	N13468	Harbwr Pwllheli Harbour	Bwi Golau Lighted Buoy	Dim Golau Light Extinguished
Porthmadog	N02875	Rh-No.1	Bwi Golau Lighted Buoy	Angen Peintio Requires Painting
Porthmadog	N02871	Rh-No.8	Bwi Golau Lighted Buoy	Angen Peintio Requires Painting
Porthmadog	N02881	Rh-No.13	Bwi Heb Olau Unlighted Buoy	Angen Adnewyddu Renewal Required

Porthmadog	N02882	Rh-No.15	Bwi Heb Olau Unlighted Buoy	Angen Peintio Requires Painting
Porthmadog	N02883	Rh-No.17	Bwi Heb Olau Unlighted Buoy	Ddim ar Safle Missing From Station
Abermaw	N02893	Clwyd Abermaw Barmouth Perch	Twr Golau Lighted Beacon	Angen Adnewyddu Leaning and Requires Painting
Abermaw	N02897	Rheilffordd Abermaw Barmouth Railway	Twr Golau Lighted Beacon	Dim Golau Light Extinguished

## **2 – Rheolaeth Hafan / Harbwr**

**2.1** Fel y bu wedi ei drafod yn y Pwyllgor blaenorol, fe fydd Aelodau yn ymwybodol y cafodd rheolaeth Hafan Pwllheli ei fewnoli yn ddiweddar, ac fe fu i'r trefniant hyn ddod yn weithredol ar y 1af Ebrill 2008 pryd cafodd y drefn rheolaeth ei drosglwyddo yn uniongyrchol i reolaeth Cyngor Gwynedd. Yn ystod y misoedd diwethaf, ac yn sgil y trefniadau newydd, mae'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig wedi bod yn ystyried yr angen i unioni rheolaeth harbwr Pwllheli er gwella effeithiolrwydd rheolaeth yr harbwr.

Gan fod hanner cyllid swydd Harbwr Feistr Pwllheli eisoes wedi ei adnabod fel arbediad ariannol a hyn er cyfrannu at gyfanswm arbedion angenrheidiol sylweddol a difrifol, fe fydd yn hanfodol bod yr Uned yn gweithredu ar unrhyw newidiadau yn strwythur yr harbwr/Hafan mor fuan â phosibl.

Mae cyllideb yn parhau ar y sefydliad er penodi Harbwr Feistr am chwe mis y flwyddyn, a rhagwelir bydd y cyfnod nesaf yn cychwyn ar y 1af Ebrill 2010 ac yn parhau yn flynyddol wedi hyn hyd at y 30ain Fedi. Fe fydd angen edrych yn fanwl ar y ffordd fwyaf effeithiol o gynnal y gwasanaeth yn sgil y toriadau.

**2.2** Er sicrhau parhad gwasanaeth yn sgil newidiadau i strwythur yr Uned, fe dderbyniodd Harbwr Feistr Porthmadog secondiad i swydd Harbwr Feistr Pwllheli ac mae wedi bod yn gyfrifol am yr harbwr ers y 25ain Ebrill 2007. Yn sgil y newidiadau rheolaethol, ac oherwydd yr angen i adnabod arbedion yn y gyllideb, fe fydd y secondiad cyfredol yn dod i ben ar y 31ain Rhagfyr 2009, pryd bydd yr Harbwr Feistr yn dychwelyd i'w swydd barhaol ym Mhorthmadog.

**2.3** Rhagwelir bydd yr Harbwr Feistr Cynorthwyol, (sydd ar hyn o bryd ar secondiad i swydd Harbwr Feistr Porthmadog) a staff eraill Hafan Pwllheli yn cynorthwyo gydag unrhyw waith cynnal a chadw angenrheidiol yn harbwr Pwllheli rhwng y cyfnod 1af Ionawr 2010 hyd at y 1af Ebrill 2010.

**2.4** Yn unol ag egwyddorion sylfaenol yr ail strwythuro, fe fydd yn hanfodol bod rheolaeth harbwr Pwllheli a Hafan Pwllheli yn cael ei gyfuno. Golygai hyn bydd yn debygol bod gwaith dyrannu angorfeydd yr harbwr allannol yn cael ei weinyddu drwy swyddfa'r Hafan yn y dyfodol. Mawr obeithir bydd yn bosibl cael cydweithrediad staff a chychwyn ar y drefn newydd yn ystod y gaeaf eleni.

**2.5** Ar ddiwedd mis Awst, fe fu i ddau Swyddog a fu yn gyfrifol am ddiogelwch yr Hafan dros nos, sef rhwng 19.00 a 07.00, ymddiswyddo a hyn ar ôl cyfnod hir o wasanaeth i'r Cyngor. Fe roedd y swyddogion yn gweithio 22 awr yr un, a hyn er cefnogi'r swydd llawn amser sydd yn parhau ar y sefydliad.

**2.6** Gan fod angen sicrhau diogelwch ar y safle ar unwaith, mae'r Uned wedi penodi cwmni diogelwch lleol er cynorthwyo gyda'r gwaith a hyn ar gytundeb dros dro hyd fydd yr Uned wedi penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithio o sicrhau diogelwch ar safle'r Hafan dros nos.

### 3 - Craen (Hoist) Hafan Pwllheli

- 3.1 Fel yr adroddwyd i Aelodau yng nghyfarfod o'r Pwyllgor Harbwr a gynhaliwyd ar 4ydd Tachwedd 2008, ac ymhellach ar y 24ain Fawrth 2009, roedd yn angenrheidiol bod yr Uned Forwrol yn ceisio amcan brisiau ar gyfer amnewid yr 'Hoist' sydd yn gwasanaethu cwsmeriaid Harbwr Pwllheli. Er y derbyniwyd tri amcan bris rhai misoedd yn ôl bellach, oherwydd bod y gost uwchlaw 100K, roedd yn rhaid dilyn canllawiau pwrcau Ewrop.
- 3.2 Yn anffodus, nid oedd y broses a ddefnyddiwyd yn wreiddiol yng nghyd fynd â'r anghenion caffael ac fe fydd yn rhaid, pe bydd yr Uned yn derbyn awdurdod i wneud hyn, ail gyflwyno, a hysbysebu'r angen i amnewid Craen y Cychod ar wefan Buy4Wales.
- 3.3 Roedd yn debygol byddai gofyn i'r Uned Forwrol adnabod costau prynu'r 'Hoist' newydd o'i chyllideb bresennol. Bydd Aelodau'n ymwybodol fod yr Uned eisoes wedi bod yn dyrannu arian tuag at angen o'r fath am y ddwy flynedd ddiwethaf. Serch hyn, mae'r Uned wedi cyflwyno cais am gefnogaeth arian cyfalaf, ac yr ydym yn fawr obeithio bydd y cais yn cael ei gefnogi er sicrhau bod y cyllid sydd wrth gefn yn cael ei fuddsoddi mewn rhannau eraill o'r Hafan/harbwr bydd angen sylw yn y dyfodol agos.

Er cyd-fynd a rheolau tendro Ewropeaidd, bydd y Cyngor yn hysbysebu drwy safle we [www.sell2wales.co.uk](http://www.sell2wales.co.uk) <<http://www.sell2wales.gov.uk>>

Cadarnhai'r bod yr holl waith rhagbaratoi eisoes wedi ei gwblhau, ac mae'r holl wybodaeth wedi ei fewn fwydo ar y safle we. Yn anffodus, ac mae hyn yn achosi pryder, mae cryn oedi gyda'r cynllun ac gan bod angen cwblhau ymchwiliadau pellach, nid yw'r hysbyseb wedi ei ryddhau hyd yma.

- 3.5 Mae'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig hefyd wedi ystyried llogi Hoist yn hytrach na phrynu o'r newydd a hyn er ceisio adnabod beth fyddai costau hurio wrth gymharu â chostau pwrcau o'r newydd. Fe ofynnwyd am amcan bris hurio Hoist gan gwmni lleol, ac wrth reswm, fe roedd y gost pwrcau, dros gyfnod pum mlynedd, yn uwch na phris prynu o'r newydd.

Yn anffodus, bydd yna oedi pellach cyn hysbysebu'r bwriad i bwrcasu 'Hoist' newydd, ond mae'r Uned y ffyddiog na fydd yr oedi yn achosi anhwylostod i ddefnyddwyr yr harbwr.

### 4 - Digwyddiadau / Events

- 4.1 Cafodd nifer fawr o ddigwyddiadau mawreddog eu cynnal ym Mhwllheli unwaith eto yn ystod 2009. Bu aelodau o'r Clwb Hwyllo yn weithgar iawn drwy gydol y tymor, ac yr ydym oll yn ddiolchgar iawn o ymrwymiad, brwdfrydedd a chydweithrediad y gwirfoddolwyr a swyddogion a fu yn sicrhau bod y digwyddiadau yn llwyddiannus, a chofiadwy.
- 4.2 Roedd yna sawl uchafbwynt yn ystod yr haf, ac fe roedd sawl digwyddiad Rhyngwladol a Chenedlaethol enwog wedi eu cynnal ym Mhwllheli. Roedd digwyddiad y gystadleuaeth genedlaethol dosbarth '**Toppers**', digwyddiad rhyngwladol y dosbarth '**Mirror's**' a digwyddiad Rhyngwladol dosbarth '**Splash**' wedi eu cynnal ac wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Roedd yna gannoedd o gychod dingi wedi cymryd rhan yn y digwyddiadau, ac ar adegau, roedd yna oddeutu naw deg o gychod pŵer yn cynorthwyo gyda diogelwch ar y dŵr. Fe roedd yna ddefnydd trwm o'r llithrfa a phontŵn digwyddiadau dros gyfnod y gweithgareddau.

Fe roedd yna gystadleuwyr o bob rhan o'r byd wedi ymweld â Phwllheli eleni ac wedi cael profiad byth cofiadwy drwy ymweld ac ardal Pwllheli.

- 4.3** Fe fu traeth Pwllheli a Hafan Pwllheli yn llwyddiannus yn eu cais am y Faner Las Ewropeaidd unwaith eto yn 2009, gyda Hafan Pwllheli yn ennill gwobr y ‘Pum Angor’ unwaith yn rhagor. Enillodd traeth Glandon ddyfarniad yr Arfordir Gwyrdd yn 2009, ac fe roedd ein cais am Wobr Traeth Gwledig hefyd yn llwyddiannus.

Yn unol â'r drefn arferol, a phe bydd ansawdd dwr ymdrochi yn cyrraedd y gofynion angenrheidiol, fe fydd yr Uned Forwrol yn cyflwyno cais i Cadw Cymru Daclus ym mis Tachwedd ar gyfer y gwobrau traeth ar gyfer 2010.

Mae yna bosibilrwydd bydd rhai traethau cyfagos yn methu a chyrraedd holl ofynion Traethau Gwobredig gan fod canlyniadau cychwynnol yn ymddangos efallai na fod canlyniadau ansawdd dwr ymdrochi rhai traethau yn cyrraedd y safon angenrheidiol.

Fe fydd holl ganlyniadau ansawdd dwr ymdrochi yn cael eu cadarnhau gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar ddiwedd y flwyddyn, ac felly mae yn gyn amserol rhagdybio beth fydd y canlyniad terfynol.

- 4.4** Cynhaliwyd digwyddiad poblogaidd ‘Wakestock’ yn yr harbwr mewnol ar y 10fed, 11eg a 12fed Orffennaf 2009. Roedd y tywydd ychydig mwy ffafriol unwaith eto eleni gyda channoedd o ymwelwyr yn mwynhau'r digwyddiad. Ar y 23ain a 24ain Fai, sef penwythnos Gŵyl y Banc, fe gynhaliwyd yr Ŵyl Fwyd poblogaidd ym Mhenrhyn Glandon, ac unwaith eto eleni, roedd yr ŵyl eleni yn hynod lwyddiannus.

Nid yw dyddiadau'r Ŵyl Fwyd wedi eu cyhoeddi ar gyfer 2010 hyd yma. Fe fydd gŵyl ‘Wakestock’ yn cael ei gynnal ar y 1af, 2il, 3ydd a 4ydd Orffennaf 2010.

## **5 – Ystadegau Harbwr / Harbour Statistics**

- 5.1** Nodi'r o'r tabl yn yr atodiad, y bod yna **892** o Fadau Dŵr Personol wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd yn ystod 2009. Mae hyn ychydig uwch mewn cymhariaeth â'r niferoedd a fu wedi cofrestru yn 2008. Nodi'r bod canran fwyaf o Fadau Dŵr Personol wedi cofrestru drwy'r swyddfa Forwrol ym Mhwlheli – 374 (**403 yn 2008**) gyda **52** o Fadau Dŵr Personol yn unig yn cofrestru drwy'r swyddfa harbwr.
- 5.2** Fel a nodi'r yn y tabl atodol, cofrestrwyd **127** o gychod pŵer drwy swyddfa harbwr Pwllheli, ac fe gofrestrwyd **95** o gychod pŵer ar draeth Abersoch eleni. Nid oes newid sylweddol yn y ffi cofrestru, ac fe roedd ffi cofrestru Cychod Pŵer a Badau Dwr Personol yn **£15.00** drwy'r post, neu **£20.00** ar y traeth, neu yn swyddfa'r harbwr. Mae ffi lansio yn **£12.00** y dydd neu **£130.00** am y tymor (cais drwy'r post.) Ni ragwelir bydd y ffi yn newid yn 2010.
- 5.3** Nodi'r o'r tabl yn yr atodiad, y bod yna **151** o gychod ar angorfa yn yr harbwr allanol eleni, sef cynnydd bychan mewn cymhariaeth a'r nifer a fu wedi angori yn yr harbwr allanol yn 2008.

Yn yr Hafan eleni, mae yna **407** o gychod ar angorfa pontŵn, sef tri chwch yn llai na'r uchafswm. Golygai hyn bod yna angorfeydd pontŵn wedi bod yn rhydd ar gyfer cychod ymwelwyr. Yn yr harbwr allanol, mae **34%** (52 llestr) o'r cychod yn rhai pŵer, gyda **66%** (99 llestr) yn gychod hwylio. Yn yr Hafan, mae **54%** (223 llestr) o'r cychod yn rhai pŵer, gyda **46%** (2184 llestr) yn gychod hwylio.

- 5.4** Eleni, er gwaetha'r dirwasgiad, mae yna **302** o gychod yn parhau ar y rhestr aros am angorfa yn y marina. Yn unol â rheoliadau'r Cyngor, mae pob unigolyn ar y rhestr aros wedi talu **£50.00** er mwyn sicrhau bod y cais yn ddilys.

## **6 Cyllidebau / Budgets**

- 6.1** Atodir er gwybodaeth yr Aelodau, adroddiad cyllid terfynol harbwr a Hafan Pwllheli am y flwyddyn ariannol **2008/09**. Atodir hefyd cyllideb gwariant a thargedau incwm yr holl harbyrau a thraethau am y flwyddyn **2009/10**.
- 6.2** Unwaith yn rhagor eleni, bydd angen bod yn wylidwrus iawn er sicrhau na fod y gwasanaeth yn ymrwymo arian tu hwnt i'r gyllideb yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r Harbwr Feistri a'r Swyddog Morwrol Harbyrau yn darparu rhaglen waith manwl ar gyfer yr hydref a gaeaf er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant yn harbwr Mhwllheli.
- 6.3** Mae targed incwm yr harbwr allanol ar gyfer y flwyddyn ariannol **2009/10** yn **£121,410** ac mae'r incwm wedi cyrraedd **£106,381** hyd at ddiwedd Awst, sef **£15,029** yn fyr o'r targed. Mae targed incwm yr Hafan eleni yn **£1,554,830**, ac mae'r incwm hyd yma wedi cyrraedd **£1,411,041** (adroddiad diwedd Awst) sef **£143,789** yn fyr o'r targed. Ar yr un cyfnod llynedd, roedd y targed **£124,076** yn fyr.

### **6.4 Cynnyddu Ffioedd 2010/11**

Yn ystod yr wythnosau nesaf, fe fydd yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn adolygu'r ffioedd a thaliadau cyfredol, ac yn cynnal ymchwil i'r farchnad er argymell ffioedd a thaliadau ar gyfer harbyrau, marinas a thraethau am y flwyddyn ariannol nesaf.

Yn sgil y dirwasgiad a sefyllfa fregus yr economi, ni ragwelir bydd ffioedd a thaliadau Hafan Pwllheli a harbwr allanol Pwllheli yn cynyddu uwch na chwyddiant yn y flwyddyn ariannol 2010/11.

Rhaid pwysleisio bydd angen trafod unrhyw argymhelliad ymhellach a derbyn cadarnhad Swyddogion Statudol a'r Arweinydd Portffolio cyn bydd yn bosibl cadarnhau a chyhoeddi'r ffioedd newydd.

Gan fod yna newid sylweddol oddi amgylch rhai angorfeydd yn yr harbwr allanol, bydd yr Uned yn ystyried gostwng rhai ffioedd gan fod dyfnder dwr dan y cêl yn lleihau. Pwysleisir bod hyn yn ddigwyddiad disgwylidig ac nid oherwydd diffyg carthu.